# ymgyrch CYMRU

**Cylchlythyr Aelodau CND Cymru** Rhif 16 Mai - Gorffenaf 1990 **20c**




# CRAIR OES A FU

**Testun pryder dwys i bobl Cymru yw'r newyddion brawychus y bwriedir adeiladu system radar tra-diogel ym Mreudeth am gost o £1,000 miliwn.**

Mae RAF Breudeth, yng nghesail arfordir gorllewinol Cymru, yn hen gyfarwydd i ni yn y mudiad heddwch fel gorsaf olrhain llongau tanfor yr Unol Daleithau. Bwriedir i'r ganolfan yn awr fod yn gartref i system radar sydd, chwedl yr Independent (23.3.90), "wedi ei dylunio'n benodol i roi rhybudd cynnar o ymosodiad gan daflegrau cruise ar adeg pan nad yw lluoedd arfog yr Undeb Sofietaidd ... yn edrych hanner mor ymosodol ag oeddynt saith mlynedd yn ôl."

Yn un o greiriau drud, peryglus y dyddiau cyn y Cytundeb INF, mae hefyd, fel y datgelodd Wales on Sunday (1.4.90), yn fygythiad sylweddol i iechyd pobl: "-Honnir bod y peryglon yn cynnwys lwcemia, cancr y coluddon a'r croen, niwed i'r golwg a nam ar y cof." Ychwanegai bod "astudiaeth o aelodau o luoedd arfog Gwlad Pwyl wedi datgelu bod dinoethi pobl i effeithiau radar yn treblu'r perygl o ddatblygu cancr."

Wrth i ni fynd i'r wasg, mae ymgyrch i atal y datblygiad yn ymffurfio. Mae CND Cymru, sydd wedi bod ar flaen y gad o ran protestiadau ym Mreudeth yn y blynyddoedd diwethaf, yn annog ei holl gefnogwyr yn y cylch i gymryd rhan. Oblegid, fel y dywed ein cadeirydd, Rhodri Glyn Thomas, "Mae'r gwersyll hwn yn gam yn ôl i ddyddiau taflegrau cruise, a rhaid i ni ddatgelu'r ffolineb hwn fel rhywbeth dianghenraid nad oes ar neb ei eisiau, a dweud wrth UDA a'r Llywodraeth Brydeinig na wnaeth pobl Cymru bleidleiso drosto, nad oes arnom ei eisiau ac y byddwn yn ei wrthwynebu i'r eithaf."




"Am y tro ola, syr, dyw'n hawyrennau ni ddim yn hedfan mor isel â *hynny*."

# UWCH EIN PENNAU – O DRWCH BLEWYN!

## Mae 24 o awyrennau milwrol wedi dod i lawr mewn damweiniau dros y ddeng mlynedd ddiwethaf. Tybed pa bryd yn y dyfodol y bydd awyren yn syrthio ar ysgol neu stad o dai?

NID ymarfer ar gyfer atal ymosodiad y mae'r awyrennau hyn. Byddai hynny'n golygu dringo i'r awyr mor uchel ac mor gyflym a sy'n bosibl. Yn hytrach, mae'r awyrennau yn ymarfer ar gyfer teithiau bomio dros bellter hir. Maen nhw'n hedfan yn isel er mwyn osgoi cael eu darganfod gan radar.

Mae bron pob un o'r awyrennau hyn wedi'u cynllunio i gario bomiau niwclear. Mae cenhedaeth newydd o fomiau niwclear i'w lansio yn yr awyr yn yr arfaeth ar hyn o bryd.

Lawnsiwyd ymgyrch cenedlaethol yn erbyn hedfan isel yn ystod cynhadledd CND Cymru at Ebrill 21. Y mae taflen dwyiethog, sy'n esbonio gwrthwynebiad CND i hedfan isel, ar gael oddi wrth Bob Cole, Brynelltyd, Tanygrisiau, Blaenau Ffestiniog, Gwynedd LL41 3TW. (Ffôn 0766 831356).

● ***RHAGR AM HEDFAN ISEL – td.2***

TU MEWN: CATALOG NEWYDD CND CYMRU AR GYFER HAF 1990

# "Hedfan isel i barhau"

### Y Weinyddiaeth Amddiffyn ym Machynlleth


**Cynhaliwyd cyfarfod cyhoeddus yng Nghanolfan Gymdeithasol Machynlleth gan Gyngor y Dref. Daeth 130 o bobl yno i wrando ar y Cadlywydd Brian Cable yn dweud nad oedd bwriad o gwbl gan yr Awyrlu i newid eu polisi hedfan isel.**

Eglurodd mai prif bwrpas hedfan isel oedd hyfforddi peilotiaid i hedfan mewn modd na ellid ei ganfod gan radar y gelyn. Cyn 1979 cyfyngid hedfan isel i lwybrau penodol. Daethai trefn newydd i rym ym 1979 oedd yn mynnu bod peilotiaid yn osgoi ardaloedd trefol, meysydd awyr a gorsafoedd niwclear, ond ar yr un pryd, rhoddwyd llawer mwy o ryddid a hyblygrwydd iddynt. O ganlyniad, yn y blynyddoedd diwethaf cafwyd rhyw 100,000 o deithiau gan awyrennau a 40,000 gan hofrenyddion. Nododd hefyd nad oedd awyrennau'n hedfan o dan 250 troedfedd fel arfer.

Dywedodd swyddog o'r Weinyddiaeth Amddiffyn fod cwynion wedi cynyddu'n arw ar ôl iddynt ddechrau defnyddio awyrennau Torando. Derbyniwyd 8,000 o gwynion y llynedd a thalwyd tua £40,000 mewn iawndal. Pan ofynnodd cynghorydd lleol pam fod awyrennau'n hedfan yn isel dros Fachynlleth a hwythau wedi eu siarsio i beidio â hedfan dros ysbytai ac ysgolion, yr ateb oedd eu bod yn gwneud eu gorau i osgoi ardaloeoedd megis Machynlleth ond nad oedd hynny bob amser yn bosibl!

Roedd Martin Ashby (CND Cymru) yn feirniadol iawn o'r ffaith nad oedd strategaeth y lluoedd arfog wedi newid er 1945, er gwaethaf y newidiadau mawr sydd ar droed yn Nwyrain Ewrop. Atebodd y Cadlywydd Cable nad oedd dim byd wedi newid yn sylfaenol, yn ei farn o, a'i fod dan orchymyn i gario ymlaen fel cynt.

Bu Bill Pritchard o'r Bermo wrthi'n ddiweddar yn gwneud ymchwil trylwyr ar hedfan isel, a honnai mai rhan o ymarfer ar gyfer ymosodiad niwclear annisgwyl ar Rwsia oedd yr hedfan isel. Aeth ymlaen i egluro bod Awyrlu Sweden yn cymryd camrau i atal cyrch o'r fath gan awyrennau Prydeinig yn hedfan drwy gymoedd culion Norwy a Sweden. Ni chafwyd ateb ystyrlon gan y Cadlywydd.




**Damweiniau gydag awyrennau milwrol yng Nghymru ers 1980**

1. Abertawe 1980
2. Llanbedr-pont-Steffan 1980
3. RAF Y Dyffryn 1980
4. RAF Breudeth 1981
5. Corwen 1982
6. Nant-y-Moch 1982
7. Claerwen 1982
8. Y Dyffryn 1982
9. Caerfyrddin 1982
10. Breudeth 1982
11. Llanberis 1983
12. Breudeth 1983
13. Bae Ceredigion 1984
14. Ynys Mon 1984
15. Claerwen 1986
16. Y Dyffryn 1986
17. Breudeth 1986
18. Llanfair ym Muallt 1987
19. Aberystwyth 1987
20. Breudeth 1988
21. Ponthenri 1989
22. Machynlleth 1989
23. Breudeth 1989
24. Capel-y-Ffin 1990

*Ffynhonnell: Wales on Sunday*

Dywedodd Dr Dafydd Elis Thomas AS bod yn rhaid i'r Weinyddiaeth Amddiffyn wynebu realiti'r sefyllfa. Wrth i bobl weld lluoedd arfog Rwsia yn cael eu tynnu'n ôl o ddwyrain Ewrop, a oedd angen parhau â hen strategaeth Nato, ac a oedd angen yr holl hedfan isel?

Cyflwynwyd deiseb wedi ei harwyddo gan 1,015 o bobl leol yn protestio yn erbyn hedfan isel.

Un peth oedd yn amlwg iawn yn y cyfarfod yma oedd bod y siaradwyr wedi dod i Fachynlleth i egluro'r rheswm dros hedfan isel, ac nid i drafod newid y polisi.

Caiff dwyrain Ewrop newid; caiff nifer y lluoedd arfog leihau; ond deil polisi niwclear NATO yn gadarn.

# Nêfi bliw!

**Mae cyfarfod llawn arall o Gyngor Sir Gorllewin Morgannwg wedi mynd heibio, a'r Cyngor yn dal heb benderfynu p'run ai i gymryd rhan yng nghynllun "diogelwch" y Llynges ar gyfer eu hangorfa arfaethedig ar gyfer llongau tanfor ynni niwclear (y 'Z-berth' bonigrybwyll) yn nociau Abertawe.**

**Y tro hwn, fodd bynnag, bu rhywfaint o drafod ar y cynnig – gyda'r rhan fwyaf a siaradodd yn gryf yn erbyn yn cynllun, a gyfeiriwyd yn ôl wedi hynny i Weithgor. (Is-bwyllgor oedd y Gweithgor hwn yn wreiddiol. ond newidiodd ei statws yn bur handi pan ddarganfuwyd bod Is-bwyllgorau'n agored i'r cyhoedd, lle nad yw Gweithgorau!) Fodd bynnag, mae arwyddion gobeithiol o duedd ymhlith y grwp Llafur llywodraethol tuag at wrthod cynllun y Llynges, ond ddim hyd yma mor bell â herio a gorchfygfu'r elfennau hynny o'r cyngor a swyddogion y cyngor sydd o blaid pethau niwclear.**

**Digwyddiad diwethaf ymgyrch 'Atal y Llongau Tanfor' oedd gollwng miloedd o falŵns o barc ger llaw safle arfaethedig y Z-berths, ar ddydd Chernobyl, Ebrill 26ain. Roedd nodyn ar bob balŵn yn egluro wrth bwy bynnag ddaw o hyd iddo, pe bai damwain wedi digwydd ar fwrdd llong danfor niwclear yn nociau Abertawe, mai darn (anweledig) o ymbelydredd y byddent wedi dod o hyd iddo, nid balŵn! Rydym yn gofyn i bawb ddaw o hyd i falŵn i ddychwelyd y tagiau atom, gan ddweud ble y daethpwyd o hyd iddynt, er mwyn i ni gael darlun o'r modd y byddai'r ymbelydredd yn lledaenu. Gellir rhoi'r wybodaeth hon i'r wasg ac i gynghorwyr wedyn.**

**Mae grwp 'Atal y Llongau Tanfor' bob amser ag angen syniadau da, arian ac amser pobl – os gellwch gynnig un (neu'r cwbl!) o'r rhain, dewch i gysylltiad â ni, da chi, yn 72 Heol Gwyn, Yr Alltwen, Pontardawe, Abertawe SA8 3AN (sieciau'n daladwy i 'Atal y Llongau Tanfor' os gwelwch yn dda). Mae ein fideo a'n siaradwyr ar y pwnc ar gael hefyd i unrhyw grŵp sydd â diddordeb.**




Gwrthdystiad tu allan i safle radio y Llynges yng Nghriggion ger y Trallwng ar Fawrth 31

# Rhagrithwyr niwclear

**Ni all y darganfyddiad fod dyfeisiadau tanio niwclear yn cael eu smyglo drwy Faes Awyr Heathrow, ar eu ffordd i Iraq, lai na pheri pryder difrifol i'r mudiad heddwch.**

Ar yr un pryd, mae rhagrith rhai gwleidyddion Prydeinig yn eu sylwadau ar y digwyddiad hwn, yn ddigon i gynddeiriogi rhywun.

Tra bod Prydain, Ffrainc a Tsieina wrthi'n cynyddu nifer eu harfau niwclear, pa hawl sydd gennym ni i feirniadu gwledydd eraill am geisio ein dynawared ni, a mynd yn bwerau niwclear?

Mae Erthygl Chwech o'r Cytundeb Gwrth-Amlhau, a arwyddwyd gan Brydain, yn galw ar y gwledydd hynny sydd yn berchen arfau niwclear i ymdrechu'n weithredol tuag at ddiarfogi niwclear, tra'n rhwymo'r rheini sydd heb arfau niwclaer i beidio â sicrhau neu ddatblygu y cyfryw arfau.

Ym mis Awst, bydd yn adeg adolygu'r Cytundeb Gwrth-Amlhau a rhaid i ni ddwyn pwysau ar y llywodraeth Brydeinig i ddod â chystadlu Prydain yn y ras arfau niwclaer i ben. Byddai penderfynu dileu Trident a chefnogi cytundeb gwahardd profion cynhwysfawr yn gam mawr ymlaen i'r holl fyd.

Bydd CND Cymru'n chwarae ei ran pan, o dan y slogan "Cymru'n dweud NA i Arfau Niwclaer", lawnsir y ddeiseb heddwch 'Rhuban Anferth' yn Eisteddfod yr Urdd yng Ngwynedd ddiwedd mis Mai.

Anogir grwpiau heddwch i'w defnyddio, i gasglu cymaint o enwau ag sy'n bosibl, cyn iddi fynd ymlaen i'r Eisteddfod Genedlaethol yng Nghwm Rhymni ym mis Awst.

Yn ogystal ag ymgyrchu, bydd y prosiect cenedlaethol hwn yn gyfrwng codi arian hefyd, gyda phobl gyflogedig yn talu £1, a phobl ddigyflog a phlant yn talu 50c i arwyddo.

Wedi'r Eisteddfod Genedlaethol, bydd y rhuban yn cysylltu â Bruce Kent ar ei daith gerdded i Genefa, a gobeithio y bydd yn ddigon hir i fynd o gwmpas yr adeilad yng Ngenefa lle bydd adolygiad y Cytundeb Gwrth-Amlhau yn cael ei gynnal. Dyma gyfle i bob sir, dinas, tref neu bentref i ddangos eu gwrthwynebiad i arfau niwclaer, a dangos i'r byd bod Cymru'n poeni.

Am fanylion pellach, cysyllter â: Bob Cole, Bryn Elltyd, Tanygrisiau, Blaenau Ffestiniog, Gwynedd. (0766)831356

# Allforio angau

**Mae Llywodraeth Llundain yn hybu'r fasnach arfau i raddau mwy nag y gwna ag unrhyw allforion eraill. Drwy'r Mudiad Gwasanaethau Allforion Amddiffyn, â chyllideb o £10 miliwn a staff o 240, bydd yn trefnu'r Ffeiriau Arfau – Arddangosfa Offer y Fyddin Brydeinig yn Aldershot, a gynhelir am yn ail flwyddyn ag Arddangosfa Offer y Llynges Frenhinol yn Portsmouth.**

Mynychodd 60 o wledydd a mwy na 300 o gynhyrchwyr arfau Prydeinig Ffair Portsmouth y llynedd. Bydd attaches milwrol mewn llysgenadaethau Prydeinig yn gwneud y gwaith dilynnol.

Cedwir y cwbl yn gêl. Mae rhestr gwahoddedigion y Ffeiriau Arfau yn gyfrinachol, er bod manylion yn dod i'r amlwg weithiau neu'n cael eu 'darganfod'. Mae oblygiadau Hawliau Sifil yn hyn o beth.

Hawlia'r llywodraeth nad yw'n cyflenwi arfau i lywodraethau gormesol neu wledydd sy'n rhyfela, ond treiddiodd arfau Prydeinig i mewn i ryfel Iran-Iraq, i Chile, a gwerthwyd offer radar soffistigedig i Dde Affrica.

Sefydlwyd yr Ymgyrch yn erbyn y Fasnach Arfau ym 1974 gan nifer o fudiadau a sylweddolai arwyddocad y fasnach arfau. Cyllidir yr Ymgyrch yn rhannol o hyd gan Blaid Cymru, Cyfeillion y Ddaear, Grŵp Heddwch a Gwasanaeth y Crynwyr ac un ar bymtheg o grwpiau eraill.

Ymhlith defnyddiau eraill, mae'n cynhyrchu llythyr newyddion deufisol, rhestri o gynhyrchwyr arfau (yn cynnwys un ar gyfer Cymru) yn ogystal a thaflenni a phapurau cefndir. Cyfrol yn disgrifio effaith y fasnach arfau ar y Trydydd Byd yw 'Death on Delivery' a gyhoeddwyd gan yr Ymgyrch yn ddiweddar.

Cyflogir rhyw 100,000 o bobl yn y fasnach arfau, felly gwyddom bod yn rhaid i ni geisio cyfaddasu yn hytrach na chau.

Eleni rydym yn ymgyrchu ar wastraff – y gwastraff adnoddau, dynol a materol, a achosir gan y fasnach arfau. Rydym yn galw am gau'r Mudiad Gwasanaethau Allforion Amddiffyn ac mae gennym ddeiseb ddwyieithog, a gyflwynir i'r llywodraeth ar ddiwedd wythnos o weithredu – 'WYTHNOS YN ERBYN GWASTRAFF' – sef Medi 21ain-30ain.

Am wybodaeth bellach cysyllter â: CAAT, 11 Goodwin St., Llundain N4 3HO

# Labour's Arms Policy: Not perfect but progressing

*by Martyn Jones MP*

**Whilst many Labour Party members and supporters may like to see the Scottish Labour Party conference decision to keep a policy of unilateral removal of nuclear weapons repeated in Blackpool this October, most of us accept that this will not happen. However, there is much in tune with the time of Glasnost in the present statements on policy emanating from the Policy review.**

Though three Trident submarines will be kept for the present, the fourth will be cancelled and there will be no increase in the number of warheads as presently proposed by the Tories.

Possibly the most important thing for the long term prospects of removal of nuclear weapons is the decision to cease testing of such weapons, and also there will be no replacement for the WE177 free-fall bombs.

Negotiations will be started immediately on short range weapons and then on strategic weapons, and given the present situation in the Eastern bloc it is hard to envisage no progress.

Of more immediate concern to us in Wales is the Labour party's opposition to contracting out of Nuclear Establishments and best of all for the environment of the rural areas the present training policies will be quickly reviewed. This is important for the ecology of ground training areas but even more so for the areas sorely afflicted by low-flying jets.

From my personal point of view the best aspect will be the serious consideration of conversion of production away from arms, a report on which will be published by Walworth Road next month, and the real chance of a substantial cut in spending on arms over the first years of a Labour Government – hopefully not too long away!

# Glastonbury

CND Cymru has agreed to staff a gate at Glastonbury this year. The work will be hard and although workers get a festival ticket, there is no guarantee of there being much time to enjoy the weekend.

The bonus for us is a badly needed £500 to help with our finances. The festival is on 22-24 June. Some people will be needed to work the two days before, but the bulk of the work is on those days. Accommodation will be in tents in a "workers' village" complex, with showers toilets and subsidised food.

Strong, willing and reliable members who would like to help should contact Jan Henderson, 72 Stryd Gwyn, Yr Alltwen, Pontardawe, Abertawe, tel. (0729) 830330.

**CAMPAIGN WALES**
Published by CND Cymru. Send letters, articles, pictures, cartoons to the editor: Rhoda Jones, Ty Isaf, Ffestiniog, Gwynedd LL41 4LS.
The general secretary of CND Cymru is Bob Cole, Bryn Elltyd, Tanygrisiau, Blaenau Ffestiniog, Gwynedd, LL41 3TW (Tel. 0766 831356).
Campaign Wales is imageset by Pia Ltd, Cardiff, and printed on recycled paper by Eryri Printers, Bethel, Caernarfon, Gwynedd.
ADVERTISEMENTS: £15 1/8 page, £25 1/4 page, £50 1/2 page – to Rhoda Jones, Ty Isaf, Ffestiniog, Gwynedd LL41 4LS, (076 676 2739).

# Summer Diary

## May

**2-4** Wales TUC Conference in Llandudno.

**7** May Day Rally with Bruce Kent in the Rhondda.

**8** Parliamentary Lobby on Disarmament at the House of Commons following the April street ballots which have shown the unpopularity of Britain's obsolete policies. If you want to take part, be sure to contact your MP to see if he/she will be in the House and willing to meet you.

**18-20** Labour Party Wales Conference in Swansea

**29-31** Urdd Eisteddfod at Glyn Llifon near Caernarfon, Gwynedd

## June

**9** Cyngor CND Cymru. Brynafon, Rhaeadr, Powys at 11 a.m. If you can spare a Saturday and are a member of CND Cymru, why not come and join in the discussions which are open to all members as well as to group representatives.

**22-24** Glastonbury Festival (see leaflet)

**30** Peace Dividend Conference organised by British CND (see leaflet)

## July

**3-7** END Conference in Helsinki

**7-8** 6th International Low-Level Radiation Conference UCNW Bangor. See advert

## August

**4-12** The National Eisteddfod, Rhymney Valley. If you are there, be sure to support the CND Cymru/WANA tent and sign the Giant Peace Ribbon

July 7th and 8th 1990

**University College of North Wales Bangor**

**6th International Standing Conference on Low Level Radiation and Health**



Provisional Speakers:
Professor Radford (Cancer Risk)
Dr Michael Snee (Sellafield)
Dr P Sheehan (genetic risks)
Dr A Gill (effects in animals)
Jack Dromey (Unions' response)

Send s.a.e. to Deilwen Evans, Cae'n Cefn, Trawsfynydd, Gwynedd.
Tel: 076-687 408

## FFURFLEN AELODAETH AR GYFER EICH FFRINDIAU
## MEMBERSHIP FORM FOR YOUR FRIENDS

Enw/Name .......................................... Llythrennau bras/Capitals letters

Cyfeiriad/Address ..........................................

..........................................

Sir/County .......................................... Côd Post/Postcode ....................

**Membership/Tâl Aelodaeth**
Oedolyn/Adult £9 Cwpl/Couple £12
Myfyriwr/Student, Ieuenctid/Youth,
Heb waith a phensiynwyr/Unwaged and pensioners – all £3

Dymunaf gyflwyno rhodd/I wish to make a donation £........
Am aelodaeth amgaeaf/For membership I enclose £.........
Gwneler sieciau'n daladwy a danfoner i/Make cheques payable and send to:

*CND Cymru, Bryn Elltyd, Tanygrisiau, Blaenau Ffestiniog, Gwynedd LL41 3TW*

ERYRI
argraffwyr - printers
co-operative

Hen Efail, Bethel,
Caernarfon,
Gwynedd LL55 1UW.

Tel: Portdinorwic (0248) 761196

Only UNICEF
agent in Wales



Visit
*The Peace Shop*
56 Mackintosh Place, Roath, Cardiff. Tel (0222) 489260

– wide range of goods and cards from CND, Anti-Apartheid, Friends of the Earth



# Polisi Arfau'r Blaid Lafur

*gan Martyn Jones AS*

**Tra carai llawer o aelodau a chefnogwyr y Blaid Lafur weld ategu penderfyniad cynhadledd Plaid Lafur yr Alban i barhau â pholisi o ddileu arfau niwclear yn unochrog yn Blackpool ym mis Hydref, mae'n rhan fwyaf ohonom yn derbyn nad yw hynny'n debyg o ddigwydd. Fodd bynnag, ceir cryn dipyn sydd yn gydnaws ag ysbryd Glasnost yn y datganiadau presennol ar bolisi sy'n deillio o'r adolygiad polisi.**

Er cadw tair llong danfor Trident am y tro, dileir y bedwaredd ac ni chynyddir y nifer o flaenarfau fel sy'n fwriad gan y Toriaid.

Dichon mai'r cam pwysicaf o safbwynt gobeithion tymor hir am ddileu arfau niwclaer yw'r penderfyniad i roi'r gorau i brofion niwclear ac ni chomisiynir unrhyw arf arall i gymryd lle'r bomiau rhydd-gwymp WE 177 ychwaith.

Dechreuir negydu ar unwaith ar arfau pellter byr ac yna ar arfau strategol, ac yng ngoleuni'r sefyllfa bresennol yn y bloc Dwyreiniol, mae'n anodd dychmygu diffyg llwyddiant yn y cyfeiriad hwn.

Beth sydd o fwy o bwys i ni yng Nghymru yw gwrthwynebiad y Blaid Lafur i roi'r gorau i sefydliadau niwclear, a'r peth gorau oll o safbwynt yr amgylchedd mewn ardaloedd gwledig yw'r ffaith yr adolygir y polisïau hyfforddi presennol yn fuan iawn. Mae hyn yn bwysig o safbwynt ecoleg y tiroedd a ddefnyddir gan y fyddin i hyfforddi, ond yn bwysicach fyth i'r ardaloedd hynny sy'n dioddef beunydd oherwydd hedfan isel.

I mi, yr agwedd orau fydd yr ystyriaeth ddifrifol a roddir i drawsnewid diwydiannau cynhyrchu arfau i ddibenion amgen – bydd y Blaid Lafur yn cyhoeddi adroddiad ar hyn y mis nesaf – a'r gobaith gwirioneddol am gwtogi sylweddol ar wariant yn ystod blynyddoedd cyntaf Llywodraeth Lafur – nad yw'n rhy bell i ffwrdd, gobeithio!

# Glastonbury

Mae CND Cymru wedi cytuno i ofalu am un glwyd yn Glastonbury eleni. Bydd yn waith caled ac er bod y rhai sy'n gweithio'n derbyn tocyn gŵyl, does dim sicrwydd y bydd ganddynt lawer o amser i fwynhau'r penwythnos.

Yr abwyd i ni yw £500 y mae mawr angen amdano i chwyddo'n coffrau. Cynhelir yr Ŵyl ar y 22-24ain Mehefin. Bydd angen rhai pobl i weithio'r ddau ddiwrnod cyn hynny, ond bydd y rhan fwyaf o'r gwaith ar y dyddiau hynny. Darperir llety mewn pebyll mewn "pentref gweithwyr" gyda chawodydd, toiledau a bwyd rhad.

Dylai aelodau cryf, parod a dibynadwy a hoffai helpu gysylltu â: Jan Henderson, 72 Stryd Gwyn, Yr Allwen, Pontardawe, Abertawe, tel 0729 830330.

**YMGYRCH CYMRU**
Cyhoeddwyd gan CND Cymru. Danfonwch lythyrau, erthyglau, lluniau, cartwnau at y golygydd: Rhoda Jones, Ty Isaf, Ffestiniog, Gwynedd LL41 4LS.
Ysgrifennydd Cyffredinol CND Cymru yw Bob Cole, Bryn Elltyd, Tanygrisiau, Blaenau Ffestiniog, Gwynedd, LL41 3TW (Ffon 0766 831356).
Cysodwyd gan Pia Cyf, Caerdydd. Argraffwyd Ymgyrch Cymru ar bapur wedi'i ailbrosesu gan Argraffwyr Eryri, Bethel, Caernarfon, Gwynedd.
HYSBYSEBION: £15 1/8 tudalen, £25 1/4 tudalen, £50 1/2 tudalen – i Rhoda Jones, Tŷ Isaf, Ffestiniog, Gwynedd LL41 4LS, (076 676 2739).

# Dyddiadur yr Haf

## Mai

**2-4** Cynhadledd TUC Cymru yn Llandudno.

**7** Rali Calan Mai gyda Bruce Kent yn y Rhondda.

**8** Lobi Seneddol ar Ddiarfogi yn Nhŷ'r Cyffredin, yn sgil arolygon barn stryd mis Ebrill sydd wedi dangos mor amhoblogaidd yw polisïau darfodedig Prydain. Os ydych am gymryd rhan, cysylltwch â'ch AS i weld os y bydd ef/hi yn y Tŷ ac yn fodlon cwrdd â chi.

**18-20** Cynhadledd Plaid Lafur Cymru yn Abertawe.

**29-31** Eisteddfod yr Urdd yng Nglyn Llifon, ger Caernarfon, Gwynedd.

## Mehefin

**9** Cyngor CND Cymru, Brynafon, Rhaeadr, Powys am 11.00 am. Os ydych yn aelod o CND Cymru ac yn gallu sbario Sadwrn, pam na ddewch i ymuno yn y trafodaethau sydd yn agored i bob aelod yn ogystal â chynrychiolwyr grwpiau?

**22-24** Gŵyl Glastonbury (gweler y daflen)

**30** Cynhadledd y Difidend Heddwch a drefnwyd gan CND Prydain (gweler y daflen)

## Gorffennaf

**3-7** Cynhadledd END yn Helsinki

**7-8** Y Chweched Gynhadledd Ryngwladol ar Ymbelydredd Lefel Isel ym Mangor (gweler hysbyseb)

## Awst

**4-12** Yr Eisteddfod Genedlaethol, Cwm Rhymni. Os byddwch yno, cofiwch gefnogi pabell CND Cymru/WANA, da chi, ac arwyddwch y Rhuban Heddwch Anferth.